Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
National Assembly for Wales
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

2 Mawrth 2020

Annwyl Lesley

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020**

Yn ein cyfarfod ar 24 Chwefror 2020, gwnaethom ystyried, am yr eildro, Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion ac ati) (Cymru) 2020.

Yn ein cyfarfod ar 10 Chwefror 2020, nodwyd 10 pwynt gennym ar gyfer adrodd i'r Cynulliad o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3. O ganlyniad i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y Rheoliadau hyn, fel y rhagnodir gan Reol Sefydlog 21.4, gosodwyd ein hadroddiad gerbron y Cynulliad ar 11 Chwefror 2020 cyn cael ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Erbyn hyn, rydym wedi cael cyfle i ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau adrodd ac mae un mater yr ydym am ei godi ymhellach gyda chi.

Nododd pwyntiau adrodd technegol 1, 4, 5 a 6 fod gwallau yn y Rheoliadau. Mewn ymateb i'r pedwar pwynt hyn, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd yn cymryd camau i gywiro'r gwallau. Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn egluro'r union gamau a gymerir a phryd, yn unol ag arfer safonol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, a fydd y gwallau yn cael eu cywiro gan argraffydd y Frenhines trwy slip cywiro, neu a fydd rheoliadau diwygio i ddod?

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ateb cyn gynted â phosibl. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDCC@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddLJC@assembly.wales
0300 200 6565

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
**Cadeirydd**
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.